Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Pentrebaen
# Waterhall Youth Centre
# Heol Pentrebaen
# Pentrebaen
# Caerdydd
# CF5 3PZ

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2014**

**gan**


**Mr Eifion R Morgan**
**Arolygydd Cofnodol**


**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 02/05/2014**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Pentrebaen yn cyfarfod yng Nghanolfan Ieuenctid Waterhall yn y Tyllgoed. Mae'n leoliad cyfrwng Cymraeg sy`n cymryd plant o Bentrebaen a'r Tyllgoed - dwy ardal breswyl ar gyrion dinas Caerdydd. Daw'r plant o gefndiroedd cymdeithasol- economaidd amrywiol a bernir bod y rhan hon o'r ddinas yn cynnwys ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol gyda chyfradd uchel o ddiweithdra.

Mae'r lleoliad yn ddarparwr addysg fel aelod o Bartneriaeth Gofal Plant a Datblygiad Blynyddoedd Cynnar Caerdydd. Mae hefyd yn aelod cofrestredig o`r Mudiad Meithrin. Mae'r lleoliad yn cael ei reoli ar hyn o bryd gan bwyllgor gwirfoddol sydd newydd ei ethol.

Mae'r lleoliad ar agor am 5 sesiwn bore bob wythnos yn ystod y tymor ysgol. Mae wedi'i gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ( AGGCC ) i ddarparu ar gyfer uchafswm o 32 o blant. Ar hyn o bryd mae 27 o blant ar y gofrestr gyda 19 ohonynt yn 3 oed ac yn cael eu hariannu. Mae`r lleoliad yn medru darparu ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol, er bod neb o'r garfan bresennol wedi nodi fel rhai sydd ag anghenion o'r fath.

Saesneg yw'r iaith sy`n cael ei siarad yng nghartrefi bron pob un o'r plant ac yn ystod yr arolygiad nid oedd unrhyw blant o gefndir lleiafrifol ethnig.

Mae'r lleoliad yn defnyddio dwy ystafell gyfagos yn y Ganolfan Ieuenctid. Mae'r rhain yn ystafelloedd amlddefnydd sy`n golygu bod angen gosod allan a chlirio adnoddau ar gyfer pob sesiwn. Tu allan i`r ystafelloedd, gwneir defnydd hefyd o lawr caled a mannau glaswelltog. Mae'r ddwy ystafell o faint digonol ac i`w cyrraedd rhaid mynd trwy'r brif fynedfa`r ganolfan ac i lawr dwy stepen.

Caiff y lleoliad ei staffio gan arweinydd a benodwyd yn ddiweddar, dirprwy arweinydd, 3 gynorthwy-ydd a myfyriwr o dan hyfforddiant. Mae ganddynt gymwysterau priodol ac mae dwy yn siaradwyr Cymraeg rhugl a'r lleill yn ddysgwyr o`r iaith Gymraeg.

Pan fydd plant yn gadael y lleoliad, mae`r rhan fwyaf yn mynychu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Mae plant yn mynychu'r lleoliad o 2 ½ mlwydd oed ac yn symud ymlaen i`r cam nesaf yn eu haddysg rhwng 3 a 4 oed, yn dibynnu ar drefniadau derbyn yr ysgol sy`n eu derbyn.

Cafodd y lleoliad ei arolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Tachwedd 2007. Mae rhai o'r argymhellion heb gael sylw. Cafodd y lleoliad ei arolygu gan AGGCC ym Medi 2013 ac nid oedd unrhyw brif argymhellion.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- lles y plant a`r berthynas bersonol dda maen nhw`n ei datblygu;
- y gofal,  cymorth ac arweiniad sy`n cael eu darparu ar gyfer y plant.

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn ddigonol yn unig oherwydd:

- cynnydd a safonau cyflawniad y plant;
- nid yw`r profiadau dysgu sy`n cael eu darparu ar gyfer y plant yn cyfateb yn dda â`u hanghenion;
- nid yw`r gweithdrefnau asesu`n nodi cyflawniad y plant, yn enwedig yn natblygiad eu sgiliau;
- cyfyngedig yw`r ddarpariaeth ar gyfer chwarae tu allan;
- nid yw rôl a chyfrifoldebau`r staff wedi`u diffinio`n glir;
- y wybodaeth annigonol sy`n cael ei rhoi i rieni a gofalwyr i gefnogi addysg eu plant.

### Rhagolygon gwella

Mae`r rhagolygon gwella`n dda oherwydd:

- mae`r pwyllgor rheoli sydd newydd ei ethol wedi`i strwythuro`n dda ac mae`r cadeirydd yn cydnabod beth sydd angen ei wneud;
- mae`r sefyllfa ariannol wedi`i datrys;
- mae`r arweinydd yn newydd i`r swydd ac yn awyddus i roi`r ddarpariaeth orau posibl i`r plant.

Mae`r rhagolygon gwella`n annigonol yn unig oherwydd:

- nid yw`r hunanarfarnu wedi nodi meysydd i`w datblygu sydd yn glir a wedi`u blaenoriaethu;
- nid oes unrhyw system o werthuso staff ar waith;
- nid yw datblygiad proffessiynol pellach staff wedi`i nodi;
- nid yw cyfrifoldebau`r staff wedi`u diffinio;
- nid yw perfformiad staff yn cael eu monitro a`u gwerthuso;
- mae`r cysylltiadau gyda`r ysgol gynradd sy`n derbyn y plant heb ddatblygu digon;
- mae rhai o`r argymhellion o adroddiad blaenorol Estyn heb gael sylw.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r lleoliad:

A1 wella gweithdrefnau asesu;

A2 darparu gweithgareddau sy`n cyfateb yn dda i allu`r plant a`u cyflawniad blaenorol;

A3 monitro a gwerthuso`r perfformiad presennol;

A4 dechrau gwerthuso staff yn reolaidd a phenderfynu beth yw eu hanghenion o ran eu datblygiad proffesiynol;

A5 diffinio rôl y staff a`u cyfrifoldebau`n glir;

A6 darparu`r rhieni â manylion o sut maen nhw`n gallu cefnogi dysgu eu plant;

A7 ymestyn y gweithdrefnau hunanarfarnu i nodi meysydd i`w datblygu a`u blaenoriaethu yn nghynllun datblygu`r lleoliad;

A8 datblygu cysylltiadau agos gyda`r ysgol gynradd sy`n derbyn y plant.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae`r rhan fwyaf o`r plant o bob gallu yn gwneud cynnydd boddhaol ac yn cyflawni safonau derbyniol. Mae gallu`r plant wrth iddynt ddechrau yn y lleoliad yn amrywiol iawn, ond mae pob un yn gwneud cynnydd priodol, yn enwedig o ran eu datblygiad personol a chymdeithasol. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ddysgwyr cymwys ac yn caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd yn gyson. Maen nhw`n gwneud y cynnydd gorau wrth weithio mewn grwpiau bach pan mae eu cyflawniadau unigol yn medru cael eu cydnabod.

Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn datblygu eu hunan - barch ac mae llawer yn ddigon hyderus i sgwrsio gyda'r arolygydd. Mae hyder y plant yma yn eu galluogi i fynegi eu hoff a chas bethau a rhoi rhesymau dros eu hoff weithgareddau chwarae.

Mae gallu`r rhan fwyaf o`r plant yn yr iaith Gymraeg yn eu hatal rhag mynegi eu hunain yn rhugl. Maen nhw`n deall mwy nag y gallant ei siarad ac yn ymateb i gyfarwyddiadau gan y staff. Mewn llawer o achosion mae`u dealltwriaeth o'r iaith yn annigonol ar gyfer iddynt ddilyn a deall stori. Fodd bynnag, mae llawer o blant yn deall cwestiynau sylfaenol sy`n cael eu gofyn gan yr ymarferwyr ac yn ateb yn briodol, er enghraifft yn ystod cofrestru yn y bore. Mewn achosion o'r fath, mae lleiafrif yn medru disgrifio'r tywydd, fel "mae`n niwlog" ac yn cyfrif nifer y plant sy'n bresennol yn y Gymraeg. Mae bron pob plentyn yn mwynhau canu ac adrodd caneuon a rhigymau Cymraeg. Nid yw'r iaith yn cael ei defnyddio gan blant yn ystod chwarae digymell ond dywedodd rhieni bod plant yn dechrau defnyddio geiriau Cymraeg yn y cartref.

Mae diddordeb plant mewn llyfrau yn amrywiol iawn. Mae ychydig o blant yn mwynhau edrych ar lyfr stori gydag oedolyn ac yn cymryd gwir ddiddordeb yn y stori. Mae lleiafrif, pan mae llyfr yn cael ei roi iddynt, yn troi tudalennau`n briodol, ond yn y mwyafrif o achosion, diddordeb cyfyngedig sydd gan y plant mewn llyfrau. Mae amser stori gyda grŵp mawr, yn aneffeithiol gan fod llawer o blant yn fuan yn dangos diffyg diddordeb ac yn sgwrsio ymysg ei gilydd. Mae hyn yn golygu bod yr ychydig o blant sydd â diddordeb yn cael eu rhwystro rhag cymryd rhan weithredol yn y gweithgaredd.

Mae llawer o blant yn arbrofi â chreu marciau ac ysgrifennu, er enghraifft yn yr ardal gweithgareddau "trefnwr teithiau". Mae ychydig o blant yn dal pensiliau a chreonau yn fedrus, ond mae gan lawer ohonynt sgiliau cyfyngedig.

Mae llawer o blant yn adnabod ac yn cyfateb siapiau a thrwy chwarae a phrofiadau ymarferol yn cyfateb gwrthrychau yn briodol. Mae'r plant yn cyfrif i 5 gyda gradd resymol o gywirdeb. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio iaith fathemategol sylfaenol fel "tal a byr" wrth gymharu uchder. Mae`r plant yn defnyddio tiliau arian ac yn dechrau caffael rhyw syniad o'r defnydd o arian.

Mae`r holl blant, yn eu tro, yn dangos lefel dda o allu ar eu cyfrifiadur.  Mae llawer yn trin llygoden y cyfrifiadur yn fedrus i symud eiconau ar y sgrîn.

Nodau a pholisi'r lleoliad yw y bydd plant yn mynd ymlaen i ysgol fabanod cyfrwng Cymraeg yn y rhan fwyaf o achosion.  Mae cynnydd llawer o blant yn gyfyngedig o ran eu paratoi ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg

**Lles:  Da**

Mae'r holl blant yn mwynhau`r gweithgareddau sy`n cael eu gosod ar eu cyfer ac yn cael eu cymell yn dda.  Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos lefel uchel o hunan-hyder, gan eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau am gyfnodau estynedig o amser.  Maen nhw`n gweithio'n unigol ac mewn grwpiau bach ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol at brofiadau newydd.  Mae'r plant yn dangos agweddau da at ddysgu.  Mae`r plant mwy galluog yn meddwl yn annibynnol ac yn gymwys wrth ymgymryd â thasgau.

Mae'r holl blant yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad ac mae`r berthynas â`i gilydd yn dda.  Mae agweddau`r plant tuag at ddysgu a`u cyfranogiad yn cael eu datblygu orau mewn gweithgareddau grŵp bach pan mae`r plant yn medru cael eu hannog i gyfrannu.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae`r cynllunio ar gyfer profiadau dysgu`r plant yn cael ei wneud ar y cyd ac mae`r ymarferwyr yn cyfarfod yn wythnosol i drafod cynlluniau ar gyfer y dyfodol.  Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddiddordebau`r plant  ac mae'r cwricwlwm yn adlewyrchu athroniaeth y Cyfnod Sylfaen.

Ar y cyfan, mae'r profiadau dysgu sy`n cael eu cynllunio yn llwyddo i annog y rhan fwyaf o`r plant i gymryd rhan ac yn canolbwyntio ar annog cynnydd plant at gyrraedd nodau`r Cyfnod Sylfaen ar draws y 6 maes dysgu.  Fodd bynnag, nid yw'r tasgau ffocws yn arbennig, yn cael eu gwahaniaethu'n ddigonol ar gyfer gwahanol allu`r plant nac yn cyfateb yn dda i anghenion y plant.  O ganlyniad, tra bod rhai o`r plant yn colli diddordeb, nid yw eraill yn cael eu herio'n ddigonol .

Mae`r cynllunio ar gyfer y chwe maes dysgu yn cynnwys cyfeiriad at sgiliau sydd i`w cynnwys.  Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio`n nodi sut mae`r sgiliau fod cael eu datblygu yn systematig a sut mae`r sgiliau yn cyfateb â gallu`r plant.

Mae cyfleoedd da i`r plant wneud dewisiadau ac i weithio gyda'i gilydd mewn grwpiau bach.  Mae`r berthynas â`i gilydd yn dda ac mae`r plant yn parchu ei gilydd.  Mae gan fwyafrif o`r plant yr hyder i ddod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae`r plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau creadigol ac mae`r ddarpariaeth y tu allan yn darparu rhai cyfleoedd ar gyfer chwarae corfforol.  Mae ymweliadau â `r ardal yn rhoi rhywfaint o gyfle i`r plant ddeall eu cymuned.

Mae'r lleoliad yn darparu amgylchedd dysgu sy'n trochi`r plant yn yr iaith Gymraeg. Mae dau o`r ymarferwyr yn siarad Cymraeg yn rhugl ac er bod y gweddill yn ddysgwyr, mae eu Cymraeg yn ddigonol. Mae'r lleoliad yn llwyddo i hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau o ddiwylliant Cymru.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan ymarferwyr wybodaeth a dealltwriaeth foddhaol o ofynion y Cyfnod Sylfaen a disgwyliad derbyniol ar gyfer dysgu plant. Mae'r plant yn cael profiadau dysgu derbyniol ar draws y rhan fwyaf o'r cwricwlwm sydd yn gyffredinol yn ennyn diddordeb y plant. Mae`r staff yn cefnogi plant yn ôl yr angen, ond nid ydynt bob amser yn canolbwyntio'n ddigonol ar herio plant a sicrhau eu bod yn "chwarae gyda phwrpas”. Tra bod ymarferwyr yn cymryd rhan yn y cynllunio, nid oes unrhyw ddisgrifiadau swydd i nodi cyfrifoldebau penodol staff.

Ar y cyfan, mae cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a`u harwain gan oedolyn. At ei gilydd, mae ymddygiad yn cael ei reoli'n dda ac mae`r ymarferwyr yn fodelau iaith da gyda'r siaradwyr Cymraeg rhugl yn arwain lle bo angen, fel wrth ddweud stori.

Mae'r amgylchedd dysgu yn ddigonol. Mae`r ardaloedd o weithgaredd yn cael eu gosod allan bob bore ac yn darparu ar gyfer gofynion cyffredinol y Cyfnod Sylfaen. Nid yw`r ddarpariaeth ar gyfer creu marciau ac ysgrifennu, yn ogystal â gweithgareddau i ddatblygu sgiliau rhifedd plant wedi`u datblygu cystal.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer chwarae y tu allan braidd yn llwm ac nid yw wedi'i ddatblygu'n dda i ysgogi, herio a chymell plant.

Mae`r plant yn cael eu hasesu'n rheolaidd ac mae`r arsylwadau yn cael eu cofnodi mewn llyfrynnau plant unigol (" Dyma fi "). Mae hwn yn gofnod boddhaol o gynnydd plant ond nid yw`n canolbwyntio`n ddigonol ar ddatblygiad sgiliau`r plant. Mae'r cofnodion darluniadol yn cael eu hanodi ond mae`r nodiadau yn tueddu i fod yn rhy ddisgrifiadol. Er bod staff yn adnabod y plant yn dda, nid oes digon o fanylder ar y cofnodion asesu i'w defnyddio i gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol er mwyn cwrdd ag anghenion a diddordebau y plant. Nid yw'r camau nesaf yn nysgu`r plant yn cael eu cynllunio`n ddigonol er mwyn ysgogi a herio plant o bob gallu.

Mae rhieni yn gweld enghreifftiau o waith sy`n cael ei gwneud gan y plant. Fodd bynnag, nid yw rhieni yn cael digon o wybodaeth am yr hyn y gallant ei wneud i helpu`r plant i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol yn eu lle i sicrhau iechyd a lles plant ac mae'r trefniadau yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad personol y plant. Mae'r lleoliad yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch at ei gilydd. Mae`r plant yn cael eu hatgoffa yn ystod cofrestru o dair egwyddor y Cylch o ofalu am eu hunain, ffrindiau a'r lleoliad.

Mae gwaith y lleoliad o ddydd i ddydd yn hyrwyddo egwyddorion sy'n helpu`r plant i wahaniaethu rhwng yr hyn sy`n gywir ac anghywir. Mae`r plant yn dysgu gwneud penderfyniadau fel dewis eu hoff weithgaredd chwarae.

Mae`r plant yn deall ac yn ymateb yn gadarnhaol i reolau syml o ymddygiad ac maen nhw`n dysgu cymryd eu tro, cyd-weithio â'i gilydd a rhannu. Mae`r plant yn dysgu sut i gymryd cyfrifoldeb, fel bod yn " Helpwr y Dydd ". Maen nhw`n dysgu helpu, fel wrth glirio teganau ar ddiwedd y sesiwn.

Mae`r plant yn dysgu am eu diwylliant eu hunain a gwledydd eraill. Nid oes digon o sylw yn cael ei roi i annog plant i ymddwyn yn gynaliadwy.

Mae'r lleoliad yn gymuned dysgu cynnes, cyfeillgar gydag ychydig iawn o ymddygiad gwrthgymdeithasol .

Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel i blant. Mae'r fynedfa i'r lleoliad dan glo fel na all neb ddod i mewn neu adael heb rybudd. Mae`r plant yn cael eu hebrwng i'r toiledau pan fo angen. Mae'r ardal chwarae tu allan yn ddiogel gyda ffens fetel uchel o amgylch yr ardal.

Mae polisïau yn eu lle ac mae'r staff yn ymwybodol o`r gweithdrefnau sydd wedi`u sefydlu i sicrhau lles plant. Mae amddiffyn plant, gan gynnwys iechyd a diogelwch wedi`i sefydlu'n dda. Mae`r ymarferwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae polisïau a gweithdrefnau priodol yn eu lle i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes unrhyw blentyn yn y garfan presennol sydd wedi cael ei nodi fel un sydd ag anghenion o'r fath.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n ddigonol ac mae pob un yn gymwys ac yn brofiadol i addysgu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn briodol. Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i holl feysydd o ddarpariaeth y lleoliad. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod yr holl blant yn cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau.

Mae'r lleoliad yn gymuned gyfeillgar, gartrefol sy'n hyrwyddo agwedd oddefgar sy`n rhydd o unrhyw ymddygiad gormesol. Mae dwy stepen rhwng y ddwy ystafell ddysgu sy'n ei wneud yn anodd i ddarparu ar gyfer unigolion sydd ag anableddau corfforol.

Ar y cyfan, mae`r adnoddau yn briodol ac yn cwrdd â gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Nid oes digon o bwyslais yn cael ei roi ar ddarparu cyfleusterau da i ddatblygu sgiliau gwneud marciau`r plant a rhai agweddau ar rifedd.

Mae'r ardal awyr agored, er yn ddiogel, braidd yn llwm, ac nid yw`r adnoddau yn ddigon i ysgogi a diddori`r plant, na`u herio. Fodd bynnag, mae`r ardal yn hygyrch i`r plant. Mae'r amgylchedd lleol yn cael ei ddefnyddio er mwyn cyfarwyddo`r plant â`u hardal leol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r arweinydd presennol wedi bod yn ei swydd ers ychydig dros 4 mis. Yn ystod y cyfnod hwn mae hi wedi sicrhau bod y polisïau priodol yn eu lle a bod gweithdrefnau addas wedi`u mabwysiadu. Mae`r staff yn gyfarwydd â gofynion y polisïau - hyd yma nid ydynt wedi cael eu mabwysiadu'n ffurfiol gan y pwyllgor rheoli. Mae'r arweinydd wedi cyfleu ei gweledigaeth ar gyfer y lleoliad sy`n canolbwyntio ar gynnig y ddarpariaeth orau ar gyfer y plant a`u cefnogi. Mae'r arweinydd yn cefnogi ei staff ac mae hi wedi creu ethos cadarnhaol lle mae staff a phlant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r lleoliad wedi gweithredu blaenoriaethau lleol a chenedlaethol fel mabwysiadu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a mentrau bwyta'n iach.

Mae cysylltiadau effeithiol gyda rhieni a gofalwyr wedi cael eu sefydlu. Mae`r rhieni a`r gofalwyr yn gwbl gefnogol o'r Cylch. Er bod rhieni a gofalwyr yn gweld y gwaith y mae eu plant wedi ei wneud, nid ydynt yn ymwneud yn ddigonol wrth gefnogi datblygiad eu plant.

Nid yw gwerthuso staff a rheoli perfformiad wedi digwydd yn rheolaidd ac nid yw'r targedau ar gyfer gwella wedi cael eu nodi'n glir. Nid yw monitro a gwerthuso canlyniadau yn cael eu cynnal ac nid yw cyfrifoldebau staff unigol, o ran disgrifiadau swydd, ddim digon manwl.

Yn y gorffennol, mae rheolaeth y lleoliad wedi bod yn anfoddhaol o ran rheolaeth ariannol. Yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf roedd cyfraniad y Person Cofrestredig wedi bod yn ddadleuol gan fod rhywfaint o ddryswch ynghylch pwy oedd y Person Cofrestredig. Fodd bynnag, mae hyn bellach wedi cael ei ddatrys gan AGGCC.

Mae'r pwyllgor rheoli newydd a benodwyd yn ddiweddar wedi derbyn ei gyfrifoldebau yn gyflym iawn ac wedi rhoi`r strwythur gofynnol mewn lle. Mewn trafodaeth, roedd cadeirydd y pwyllgor yn cydnabod y problemau yn y gorffennol ac wedi rhoi trefniadau ar waith i gywiro`r diffygion hyn.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Yn ddiweddar, mae'r lleoliad wedi cynnal hunan-arfarnu manwl yn canolbwyntio ar gryfderau'r ddarpariaeth. Mae hwn yn waith diweddar ond mae'n dangos bod y lleoliad yn dangos dealltwriaeth drylwyr o'r hyn y mae'n ei wneud yn dda a dealltwriaeth derbyniol o gynnydd a chyflawniad y plant.

Fodd bynnag, nid yw`r meysydd i`w datblygu yn cael eu nodi'n glir, ac nid ydynt wedi eu blaenoriaethu. Nid oes strategaethau ar gyfer sicrhau gwelliannau wedi cael eu datblygu. Nid oes rhai o`r blaenoriaethau ar gyfer gwella a amlygwyd yn flaenorol wedi cael eu cyflawni gan gynnwys y rhai a nodwyd yn adroddiad blaenorol Estyn.

Nid yw'r pwyllgor rheoli, hyd yma, wedi cael eu hymgynghori.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae`r rhieni a`r gofalwyr yn gefnogol iawn o'r lleoliad ac mae hyn yn gwneud cyfraniad gwerth chweil i gyflawniad boddhaol a lles y plant. Mae`r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr a sicrhau eu bod ar gael i gwrdd â nhw yn y boreau. Roedd y rhieni wedi gwneud sylwadau am agosatrwydd y staff a'r gofal a'r cymorth y maen nhw`n darparu ar gyfer eu plant.

Mae`r rhieni a`r gofalwyr yn cael cyfleoedd i weld y gwaith y mae eu plant wedi ei wneud, gan gynnwys ffotograffau o blant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau`r lleoliad, fel dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Dywedodd rhieni a gofalwyr, mewn trafodaeth, y byddent yn hoffi cael mwy o wybodaeth am yr hyn mae eu plant yn ei wneud ar hyn o bryd fel y gallent helpu a'u cefnogi yn y cartref.

Tanddatblygedig yw'r cyswllt gyda'r ysgol gynradd leol. Mae athro ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin yn cefnogi'r lleoliad ac yn rhoi cyngor a chymorth.

Mae`r ymarferwyr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac mae'r system allweddol yn sicrhau bod pob plentyn yn cael gofal da. Mae cymorth ychwanegol ar gael yn ôl yr angen.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd perthnasol o'r gymuned i gefnogi dysgu`r plant.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan y lleoliad adnoddau digonol. Gan fod yr ystafelloedd yn amlddefnydd, mae'n golygu bod angen gosod allan a chlirio`r ardaloedd gweithgarwch yn ddyddiol. Ar y cyfan, mae`r adnoddau`n cael eu defnyddio'n briodol i gefnogi'r dysgu.

Mae`r staff wedi mynychu rhai cyrsiau proffesiynol perthnasol, ond nid yw eu gofynion er mwyn ennill sgiliau newydd ac i ddatblygu dulliau arloesol o ddysgu wedi cael eu nodi. Mae`r staff wedi cael rhai cyfleoedd i weld lleoliadau eraill. Nid oes digon o gyfleoedd i ymarferwyr arfarnu effaith eu dysgu proffesiynol ar ddysgu`r plant.

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol ac mae cymwysterau addas gyda`r staff. Nid yw gwerthuso a rheoli perfformiad wedi digwydd .

At ei gilydd, mae'r adeiladau mewnol yn briodol gyda'r tu allan wedi ei nodi fel maes i'w ddatblygu. Nid yw`r pwyllgor rheoli hyd yma`n cymryd rhan yn weithredol.

Wrth farnu gwerth am arian, mae angen cadw mewn cof bod y lleoliad wedi cael eu camreoli`n ddifrifol yn y gorffennol. Mae hyn bellach wedi'i ddatrys, ond roedd canlyniad hyn wedi parhau tan yn ddiweddar pan nad oedd y staff wedi cael eu talu yn brydlon ar gyfer eu gwasanaethau.

O ystyried y diffygion a nodwyd yn yr adroddiad hwn, mae angen i`r lleoliad gael ei fonitro gan Estyn.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i rieni

*Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.*

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddimyngwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 10 | 3<br>30% | 7<br>70% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'nfodlonâ'rlleoliadyngyffredinol. |
| | | 80% | 19% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 10 | 5<br>50% | 4<br>40% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0 | Mae fymhlentynynhoffi'rlleoliadhwn. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 10 | 6<br>60% | 4<br>40% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafoddfymhlentyngymorthi ymgartrefu'ndda pan ddechreuoddyn y lleoliad. |
| | | 86% | 13% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 10 | 6<br>60% | 4<br>40% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fymhlentynyngwneudcynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 10 | 4<br>40% | 4<br>40% | 2<br>20% | 0<br>0% | 0 | Mae plant ynymddwynynddayn y lleoliad. |
| | | 70% | 26% | 1% | 0% | | |
| Teaching is good. | 10 | 6<br>60% | 3<br>30% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'raddysguyndda. |
| | | 79% | 17% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 10 | 7<br>70% | 3<br>30% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yntrinpobplentynyndeg a gydapharch. |
| | | 82% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 10 | 6<br>60% | 2<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Caifffymhlentyneiannogifod yniach ac iwneudymarfercorffynrheolaidd. |
| | | 73% | 22% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 10 | 8<br>80% | 2<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fymhlentynynddiogelyn y lleoliad. |
| | | 85% | 14% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 9 | 4<br>44% | 3<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae fymhlentynyncaelcymorthychwanegolpriodolmewnperthynasagunrhywanghenionunigolpenodol. |
| | | 65% | 24% | 1% | 0% | | |
| I am kept well informed | 10 | 4 | 1 | 5 | 0 | 0 | Rwy'ncaelgwybodaethgyso |

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'ngryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'ngryf | Don't know Ddimyngwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| about my child’s progress. | | 40% | 10% | 50% | 0% | | n am gynnyddfymhlentyn. |
| | | 63% | 29% | 5% | 1% | | |
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 10 | 5<br>50% | 5<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'nteimlo’ngysurusynglŷn â gofyncwestiwni'rlleoliad, gwneudawgrymiadauneunodi problem. |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 10 | 6<br>60% | 2<br>20% | 2<br>20% | 0<br>0% | 0 | Rwy'ndealltrefn y lleoliadargyferdelio â chwynion. |
| | | 62% | 29% | 3% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 10 | 4<br>40% | 4<br>40% | 1<br>10% | 0<br>0% | 1 | Mae fymhlentynwedi'ibaratoi'nddaargyfersymudymlaeni'rysgol. |
| | | 71% | 23% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 10 | 4<br>40% | 2<br>20% | 3<br>30% | 1<br>10% | 0 | Mae amrywiaethdda o weithgareddau, gangynnwysteithiauneuymweliadau. |
| | | 62% | 30% | 4% | 0% | | |
| The setting is well run. | 10 | 5<br>50% | 5<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'rlleoliadyncaeleiredegyndda. |
| | | 82% | 16% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |